# SL(6)575 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 o ran Cymru i dynnu rhyddhad elusennol ardrethu annomestig yn ôl o ysgolion annibynnol sydd â statws elusennol, gan eu gwneud yn gyson ag ysgolion annibynnol nad ydynt â statws elusennol (at ddibenion ardrethi annomestig).

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2025.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Darperir eithriad rhag tynnu'n ôl ryddhad ardrethi elusennol mewn perthynas ag ysgolion annibynnol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu addysg amser llawn i ddisgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.